

# Strategaeth Gorfforaethol 2017-2020



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

### **Addysg uwch gynaliadwy, hygyrch a rhagorol yn rhyngwladol**

Mae'r Strategaeth Gorfforaethol hon yn datgan ein blaenoriaethau ni ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae'n sicr y bydd y tair blynedd yma'n gyfnod o ansicrwydd mawr. Bydd rhagor o darfu ar adnoddau cyhoeddus, sydd eisoes dan bwysau, o ganlyniad i benderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd. Yn fwy lleol, bydd y tair blynedd nesaf yn cynnwys camau cynnar y pontio o'r dull presennol o gyllido a chyllid myfyrwyr mewn addysg uwch yng Nghymru i ddull wedi'i adolygu'n llwyr. Hefyd, yn amodol ar ymgynghoriad gan y llywodraeth, byddwn ni'n pontio o fod yn gorff cyllido addysg uwch i fod yn gorff cyfryngol newydd ar gyfer addysg ôl-orfodol, ar ôl i Lywodraeth Cymru dderbyn argymhellion adolygiad Hazelkorn.

Bydd cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch (AU) yn dibynnu i raddau helaeth ar ddarparwyr AU – prifysgolion a sefydliadau addysg bellach – ac ar amrywiaeth o randdeiliaid eraill, a fydd â rhan i'w chwarae i gyd. Mae gennym ni hefyd rôl bwysig i'w chwarae, fel cyllidwr, rheoleiddwr a dylanwadwr, gan weithio mewn partneriaeth â myfyrwyr. Rydyn ni'n cydnabod nad CCAUC yw'r unig ffynhonnell o incwm ar gyfer darparwyr AU: bydd sefydliadau cyllido eraill yn cefnogi gweithgarwch ar wahân; sicrheir incwm masnachol pan fo hynny'n briodol; ac, wrth gwrs, darperir cyfraniad sylweddol drwy gyfrwng ffioedd myfyrwyr.

Hefyd mae darparwyr addysg uwch yn rhan o'u cymunedau ac yn darparu gwasanaethau i bobl Cymru. Maent hefyd yn gyfranwyr net arwyddocaol at economi Cymru, gan weithio yn lleol, ledled y DU ac yn rhyngwladol. Po fwyaf o fuddsoddiad cyhoeddus a geir mewn addysg uwch, y mwyaf yw'r budd. Mae argaeledd cyllid yn bwysig, ond gellir cryfhau'r perfformiad drwy dargedu mwy ar ei ddefnydd, drwy bennu a monitro mesurau perfformiad penodol, a thrwy hybu arfer da, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn o beth sy'n gweithio. Bydd ein prosesau monitro'n sicrhau bod system addysg uwch Cymru'n creu canlyniadau cynaliadwy ar gyfer Cymru.

Mae'r Strategaeth Gorfforaethol hon yn wahanol i strategaethau blaenorol CCAUC. O ystyried yr ansicrwydd cyd-destunol amrywiol a amlinellir uchod, mae wedi'i phennu ar lefel uchel o angenrheidrwydd – yn gryno ac yn osgoi manylion diangen. Mae'n canolbwyntio ar beth fyddwn yn ei wneud fel sefydliad, yn hytrach na beth rydyn ni'n ei ddisgwyl i ddarparwyr ei gyflawni. Mae hyn yn fwriadol: dylai ein Strategaeth Gorfforaethol bennu'r disgwyliadau ar gyfer ein perfformiad ni ein hunain. Nid yw, fodd bynnag, yn arwydd o wanio ein huchelgais ar gyfer cael system addysg uwch sy'n perfformio i'r eithaf yng Nghymru, o ystyried y cyd-destun rydyn ni'n gweithio ynddo. Drwy gyllid, rheoleiddio a dylanwad, a gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr, byddwn yn creu amgylchedd i ddarparwyr AU gyflwyno addysg uwch gynaliadwy, hygyrch a rhagorol yn rhyngwladol yng Nghymru.

*David Allen*

**David Allen**  
Cadeirydd



## Strategaeth Gorfforaethol 2017-2020

### Ein Gweledigaeth:

*Addysg uwch gynaliadwy, hygyrch a rhagorol yn rhyngwladol yng Nghymru*

### Ein Cenhadaeth:

*I roi'r weledigaeth hon ar waith, rydyn ni'n gwneud y canlynol*

- *Cyllido addysg uwch yng Nghymru*
- *Rheoleiddio darparwyr addysg uwch yng Nghymru*
- *Dylanwadu ar addysg uwch gyda chynghor seiliedig ar dystiolaeth a gwaith partneriaeth cadarn*
- *Gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr*
- *Gweithredu'n effeithiol fel sefydliad*

Mae'r pum nod yma'n cyfrannau at y canlynol:

### Ein Nodau Llesiant<sup>1</sup>

Sicrhau bod addysg uwch yng Nghymru'n berthnasol ac yn hygyrch i bawb a all elwa ohoni neu gyfrannu ati	Cymru lewyrchus, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
Hyrwyddo addysg uwch ragorol yn rhyngwladol sydd hefyd yn gweithio i gefnogi llesiant byd-eang a datblygiad cynaliadwy	Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.
Hybu system AU sy'n gynaliadwy yn ariannol, yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol	Cymru gydnerth, Cymru o gymunedau cydlynus.
Sicrhau bod CCAUC yn batrwm o sefydliad gyda chydaddoldeb, partneriaeth a chynaliadwyedd yn sylfaenol i gyflawni ein cenhadaeth	Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru lewyrchus, Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, Cymru o gymunedau cydlynus.

<sup>1</sup> Am ragor o wybodaeth gweler Datganiad Llesiant CCAUC (Mawrth 2017) ar ein gwefan ni.

Rydyn ni'n ymrwymo i weithio yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Yn benodol:

- **Dull tymor hir o weithredu** - Pwyso a mesur anghenion tymor byr gyda dyhead i ddiogelu'r gallu i roi sylw i anghenion tymor hwy.
- **Atal** - Sut gall gweithredu atal problemau rhag digwydd neu waethygu.
- **Integreiddio** - Sut gall ein hamcanion llesiant ni effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
- **Cydweithredu** - Sut gall cydweithredu ein helpu ni i gyflawni ein hamcanion llesiant.
- **Cynnwys** - Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal mae'r corff yn ei gwasanaethu.

## Rydyn ni'n cyllido addysg uwch yng Nghymru

Ein hamcanion cyllido: rhwng nawr a 2020, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cyllido ymchwil, addysgu (gyda phwyslais cychwynnol ar bynciau drud a darpariaeth rhan amser) a gweithgareddau eraill, gan gynnwys ehangu mynediad, mewn prifysgolion a sefydliadau addysg bellach i gefnogi bodloni blaenoriaethau'r polisi addysg uwch cyfrwng Cymraeg;
- Cyllido darpariaeth addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch;
- Cyllido'r ddarpariaeth o wasanaethau i gynorthwyo sefydliadau;
- Rhoi ar waith gamau gweithredu CCAUC sy'n codi o ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad o Gyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr (Adolygiad Diamond);
- Adolygu ein dulliau cyllido i roi ystyriaeth i Adolygiad Diamond;
- Datblygu trefniadau ar gyfer asesu ansawdd yr ymchwil mewn partneriaeth â chyrrff cyllido eraill, fel sail i gyllido yn y dyfodol;
- Cyllido datblygu a darparu Prentisiaethau lefel Gradd, yn amodol ar ein cylch gwaith, a chyllid, gan Lywodraeth Cymru;
- Monitro'r defnydd o'n cyllid a'i effaith.

## Rydyn ni'n rheoleiddio darparwyr addysg uwch yng Nghymru

Ein hamcanion rheoleiddio: rhwng nawr a 2020, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cymeradwyo neu wrthod cynlluniau mynediad a ffioedd a monitro canlyniadau'r cynlluniau fel maent yn berthnasol i gyfle cyfartal a hybu addysg uwch;
- Monitro lefelau ffioedd cyrsiau a reoleiddir;
- Datblygu ein fframwaith asesu ansawdd gan ymgynghori â sefydliadau a reoleiddir er mwyn sicrhau bod darpariaeth lle mae'r ansawdd yn annigonol, neu'n debygol o ddatblygu i fod yn annigonol, yn cael sylw;
- Monitro sefydlogrwydd ariannol darparwyr AU, a threfniadaeth a rheolaeth eu materion ariannol, gan roi sylw arbennig i ofynion ein Cod Rheolaeth Ariannol;
- Ymyrryd os yw hynny'n briodol yn unol â'n dyletswyddau statudol ar gyfer rheoleiddio;
- Cyhoeddi gwybodaeth am ein rôl reoleiddio i bartïon sydd â diddordeb;
- Rheoleiddio darparwyr AU yn unol â'r risg, gan gadw at ein dyletswyddau statudol;
- Gweithio mewn partneriaeth â rheoleiddwyr eraill i leihau baich a dyblygu;
- Ysgwyddo ein cyfrifoldebau fel yr awdurdod monitro ar gyfer y modd y mae cyrrff addysg uwch perthnasol yn rhoi'r ddyletswydd Atal statudol ar waith;
- Ysgwyddo ein cyfrifoldebau am addysg gychwynnol i athrawon;
- Cynnwys llais y myfyrwyr yn benodol mewn prosesau a gofynion rheoleiddio;
- Delio â'r cwynion a wnaed i CCAUC yn erbyn darparwyr addysg uwch yng Nghymru, yn unol â'n gweithdrefnau;
- Adrodd yn ôl i Weinidogion Cymru ar ein cyfrifoldebau statudol.

## **Rydyn ni'n dylanwadu ar addysg uwch gyda chynghor seiliedig ar dystiolaeth a gwaith partneriaeth cadarn**

Ein hamcanion cynghori a phartneriaeth: rhwng nawr a 2020, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Gweithio gyda'r holl randdeiliaid gan ddarparu cyngor ac arweinig i sicrhau cyflawni blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ehangu mynediad, profiad myfyrwyr, sgiliau a chyflogadwyedd ac ymchwil, arloesi ac ymgysylltu, a darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Hybu manteision addysg uwch i'r economi ac i gymdeithas a gallu cystadleuol system AU Cymru, gan gynnwys gwerth darparwyr AU Cymraeg i'w cymunedau lleol a'r economi;
- Casglu a dadansoddi data, a chrynhoi tystiolaeth i ddarparu llais awdurdodol ar addysg uwch;
- Datblygu mesurau ar gyfer monitro perfformiad a darpariaeth darparwyr addysg uwch gan gynnwys cyhoeddi os yw hynny'n briodol;
- Monitro a chynghori ar y goblygiadau i Gymru yn sgil datblygiadau addysg uwch mewn gweinyddiaethau eraill yn y DU;
- Monitro a chynghori ar y goblygiadau i sefydliadau AU yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd;
- Fel y brif ffynhonnell o arbenigedd AU annibynnol yng Nghymru, defnyddio tystiolaeth i gynghori, herio a chyflwyno gwybodaeth i ddarparwyr a rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys ar lefel y DU ac, os yw hynny'n briodol, Llywodraeth Cymru;
- Hybu a sbarduno cydweithredu a rhannu arfer da rhwng darparwyr a gyda rhanddeiliaid eraill i ddiwallu anghenion Cymru yn y ffordd orau posib;
- Gweithio gyda darparwyr AU i sicrhau cyflawni yn unol â chyfrifoldebau statudol.

## **Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr**

Ein hamcanion ar gyfer partneriaethau â myfyrwyr: rhwng nawr a 2020, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Gweithio gydag NUS Cymru, y sector a rhanddeiliaid eraill i yrru'r agenda o fyfyrwyr fel partneriaid yn ei blaen;
- Annog darparwyr i ymateb i amrywiaeth profiad y myfyrwyr;
- Ymgorffori llais y myfyrwyr yng nghyfarwyddyd a pholisïau'r sector;
- Annog cyhoeddi gwybodaeth ddibynadwy ac amserol am addysg uwch;
- Monitro a rheoli effeithiau anfwriadol y newidiadau i'r drefn cyllid a ffioedd ar gyllid myfyrwyr;
- Gweithredu system reoleiddio gadarn a chymesur sy'n lleihau risg i fyfyrwyr a sefydliadau.

## Rydyn ni'n gweithredu'n effeithiol fel sefydliad

Ein hamcanion effeithiolrwydd sefydliadol: rhwng nawr a 2020, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, darparwyr AU a phartneriaid eraill i weithredu ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Annibynnol o Reoleiddio a Goruchwylio Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol yng Nghymru (Adolygiad Hazelkorn);
- Datblygu cynllun gweithredu blynyddol ar gyfer cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar ein strategaeth gorfforaethol a'n llythyr cylch gwaith blynyddol;
- Gweithio'n rhagweithiol mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru;
- Parhau i adolygu ein prosesau er mwyn lleihau baich a sicrhau'r effeithiolrwydd gorau posib;
- Parhau i fod yn gyflogwr o ddewis;
- Gweithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei ymgorffori yn ein prosesau ni i gyd;
- Gweithredu ein safonau iaith Gymraeg, gan weithio'n agos â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg;
- Gweithredu ein *Hamcanion Llesiant*;
- Bod yn gynaliadwy ac yn gyfrifol yn ariannol;
- Parhau i wella fel sefydliad.

## Canlyniadau Perfformiad CCAUC

Erbyn 2020, byddwn wedi gwneud y canlynol:

1. Cyflwyno dyraniadau cyllid blynyddol i ddarparwyr AU sydd, yng nghyd-destun yr amrywiaeth ehangach o gefnogaeth ariannol ar gyfer darparu addysg uwch, yn sicrhau cyflawni blaenoriaethau polisi gyda'r cyllid sydd ar gael;
2. Gweithredu'r newidiadau gofynnol i'n prosesau a'n gweithdrefnau er mwyn ymateb i weithredu adolygiad Diamond;
3. Llunio ystod o adroddiadau defnyddiol sy'n dangos y defnydd o gyllid cyhoeddus rydyn ni wedi'i weinyddu;
4. Ymgorffori'n llawn ac yn effeithiol y drefn reoleiddio a ddatblygwyd yn Neddf AU (Cymru) 2015 ar gyfer sefydliadau a reoleiddir;
5. Cynllunio a gweithredu'r trefniadau gweithredol ar gyfer 'dynodiad penodol'<sup>2</sup>;
6. Cyhoeddi amrywiaeth o wybodaeth gyhoeddus am gyfraniad addysg uwch at gymdeithas a'r economi;
7. Monitro cynaliadwyedd ariannol y sector, gan ddefnyddio amrywiaeth o ymyriadau ariannol a rheoleiddiol i sicrhau gweithredu i gywiro<sup>3</sup> lle mae angen;
8. Sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth yn y sector wedi cael ei asesu, gan ddefnyddio amrywiaeth o ymyriadau ariannol a rheoleiddiol i sicrhau gweithredu i gywiro lle mae angen;
9. Gweithio'n effeithiol gyda darparwyr addysg uwch, addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith i sicrhau pontio llyfn i drefniadau ôl-Hazelkorn<sup>4</sup>;
10. Sicrhau bod persbectif y myfyrwyr yn cael ei gynrychioli'n briodol yn ein gwaith ni ac yng ngwaith darparwyr;
11. Cyrraedd o leiaf 95% o dargedau ein cynllun gweithredol ac eithrio lle mae ffactorau allanol yn atal cyflawni;
12. Cynnal ein perfformiad fel cyflogwr effeithiol, gyda dangosyddion cyflogaeth cadarn yn ychwanegol at staff brwd a gweithgar.

---

<sup>2</sup> Yn amodol ar Lywodraeth Cymru'n cadarnhau ein rôl yn y broses hon.

<sup>3</sup> Ceir gwybodaeth am ymyriadau rheoleiddiol yn Natganiad o Ymyriadau CCAUC (W16/37AU) ar ein gwefan.

<sup>4</sup> Yn amodol ar brosesau ymgynghorol Llywodraeth Cymru.